Status: *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 177 (Cy.28)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

Wedi 'u gwneud	- -	*31 Ionawr 2006*
Yn dod i rym	- -	*1 Chwefror 2006*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 89(8)(e) ac (f), a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Amrywio Trefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwyso ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y rheoliadau hyn—

ystyr "cynigion statudol" ("*statutory proposals*") yw cynigion a gyhoeddwyd o dan adran 28;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "nifer a dderbynnir" ("*admission number*") yw nifer y disgyblion yn unrhyw grŵp oedran perthnasol y bwriedir eu derbyn yn unrhyw flwyddyn ysgol fel a benderfynir neu, lle bo'r cyd-destun yn mynnu, y bwridedir ei benderfynu, gan awdurdod derbyn yn unol ag adran 89A(1);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y rheoliadau hyn at adran â Rhif neu Atodlen â Rhif yn gyfeiriad at yr adran honno o'r Ddeddf neu'r Atodlen honno i'r Ddeddf.

Amrywio'r trefniadau derbyn

3.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi at ddibenion adran 89(8)(e) yr amgylchiadau pan gaiff awdurdod derbyn, ar ôl iddo benderfynu'r trefniadau derbyn a fydd yn gymwys ar gyfer blwyddyn

(**1**) 1998 p.31. Ar gyfer diffiniad "*prescribed*" a "*regulations*" *gweler adran* 142 o Ddeddf 1998.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).